

Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a
Llywodraeth Leol

Communities, Equality and Local Government
Committee

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru
National
Assembly for
Wales



Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Daniel Hurford
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

LG 01a
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Bil Llywodraeth Leol (Cymru): Cyfnod 1
Cais gan y Pwyllgor am wybodaeth ychwanegol

4 Mawrth 2015

Annwyl Daniel

Sesiwn dystiolaeth Bil Llywodraeth Leol (Cymru) – 26 Chwefror 2015

Diolch am ddod i'r sesiwn dystiolaeth ar y Bil Llywodraeth Leol (Cymru) ar 26 Chwefror, ynghyd â'ch cydweithwyr a oedd yn cynrychioli llywodraeth leol.

Mae nifer o faterion na chafodd y Pwyllgor gyfle i'w trafod gyda chi a'ch cydweithwyr yn ystod y sesiwn oherwydd cyfyngiadau amser. Nodir y rhain isod:

- I ba raddau yr ydych yn fodlon â'r darpariaethau yn y Bil yn ymwneud â sefydlu pwyllgorau pontio a'r ffordd y byddant yn gweithredu?
- A ydych yn cytuno bod angen i'r Gweinidog roi pŵer cyfarwyddo dros bwyllgorau pontio, ac os felly, pam?
- A yw'n briodol na fydd pwyllgorau archwilio a chraffu awdurdodau lleol yn gallu arfer eu swyddogaethau mewn perthynas ag unrhyw beth a wneir gan bwyllgor pontio? Os felly, a fydd pwyllgorau pontio yn ddigon atebol, ac i bwy?
- Gan mai dim ond aelodau fydd yn cael pleidleisio ar bwyllgorau pontio, pa rôl yr ydych yn rhagweld a fydd gan uwch swyddogion wrth i'r pwyllgorau hynny baratoi ar gyfer uno?
- A all CLILC ymhelaethu ar ei sylwadau ar Bapur Gwyn Gorffennaf 2014 y gallai'r rhaglen uno effeithio'n negyddol ar gapasiti ac arbenigedd swyddogion cyffredinol yn ogystal â darparu gwasanaeth parhaus? Sut y gellir mynd i'r afael â hyn?
- A oes unrhyw faterion penodol eraill ynghylch staffio a fyddai'n achosi pryder i lywodraeth leol mewn cysylltiad ag uno, gan gynnwys eu barn ar rôl y Comisiwn Staff?

- Yn ei sylwadau ar Bapur Gwyn Gorffennaf 2014, nododd CLILC bryderon nad oedd manylion am y dreth gyngor ac y bydd yn rhaid i Lywodraeth Cymru fod yn glir beth yw ei pholisi treth gyngor ynghylch cysoni. A yw'r pryderon hyn wedi'u datrys?
- Beth yw eich barn ar sut y dylid ymdrin â materion ynghylch y defnydd o'r Gymraeg pan fydd awdurdodau yn uno, a pha rôl fydd gan CLILC ac arweinwyr o ran hyn?

Byddai'n ddiolchgar pe gallech gyflwyno ymateb ar y cyd erbyn dydd Gwener 13 Mawrth.

Yn gywir

A handwritten signature in cursive script that reads "Christine Chapman".

Christine Chapman AC
Cadeirydd